

Swydd-ddisgrifiad – Uwch Swyddog Polisi (Cymru)

Trosolwg

Mae Resolve Poverty wedi datblygu arbenigedd helaeth ar ddatblygu a chyflawni ymatebion strategol a pholisi ar gyfer ardaloedd penodol mewn perhynas â thlodi ac allgáu ariannol. Wrth i ni ehangu ein gwaith, rydym yn gyffrous i fod yn cyflawni ar lefel genedl ddatganoledig, rhanbarthol a lleol ledled y DU.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Children North East i gyflawni prosiect mawr i leihau effaith tlodi mewn addysg a mynd i'r afael â chyfleoedd o ran cyrhaeddiad yng Nghymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y prosiect'). Bydd y prosiect yn cefnogi ysgolion a lleoliadau addysgol i ddeall a mynd i'r afael ag effaith tlodi ar ddysgwyr, lleihau cost y diwrnod ysgol, lleihau stigma tlodi a sicrhau bod lleisiau a phrofiadau gwirioneddol plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar bolisi ac arferion ledled Cymru.

Hoffem benodi Uwch Swyddog Polisi (Cymru) newydd a fydd yn cynnig arweinyddiaeth strategol o ran polisi ar draws y prosiect, gan sicrhau bod yr hyn a ddysgir gan ysgolion a lleoliadau eraill, dysgwyr, ac awdurdodau lleol a'u partneriaid oll yn cyfrannu at dystiolaeth, mewnwelediad polisi a chyfleoedd ar gyfer newid systemau. Yn ogystal, bydd deiliad y swydd yn cyfrannu at gyflawni strategaethau gwrth-dlodi ehangach Resolve Poverty mewn ardaloedd penodol a phrosiectau polisi ac ymchwil cysylltiedig, gan ddod yn gyswllt annatod rhwng polisïau gwrth-dlodi lleol, rhanbarthol, gwlad ddatganoledig a llywodraeth y DU.

Manylion y swydd:

Teitl y swydd: Uwch Swyddog Polisi (Cymru)

Lleoliad: Hybrid — wedi'i lleoli yng Nghymru gyda hyblygrwydd i deithio ledled Cymru, a bydd disgwyl i ddeiliad y swydd deithio i swyddfa Resolve Poverty ym Manceinion o bryd i'w gilydd (tua unwaith y mis).

Oriau: Llawn-amser.

Cyflog: £38,000 - £42,000.

Contract: Cyfnod penodol, 24 mis, gydag estyniad posibl yn dibynnu ar gyllid.

Cefndir

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Resolve Poverty wedi ymestyn ei strategaeth a gwaith polisi gwrth-dlodi ar lefel ranbarthol a lleol yn sylweddol, gan sefydlu dulliau cydgysylltiedig o fynd i'r afael â thlodi mewn sawl rhan o'r DU. Nod y gwaith hwn yw sefydlu ymatebion cydynol i dlodi ar lefel leol a rhanbarthol sy'n helpu i wireddu

potensial gweithgareddau strategol a pholisi seiliedig ar leoedd, gyda ffocws cryf ar hyrwyddo gwydnwch ariannol a sicrhau'r defnydd gorau o incwm aelwyddydd.

Rydym yn rhan o bartneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a Children North East sy'n anelu at leihau effaith tlodi mewn addysg a deall y rhwystrau sy'n effeithio ar gyrhaeddiad addysgol ledled Cymru, ac i ddatblygu mentrau sy'n dileu'r rhwystrau hyn, fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i ffynnu. Nod yr holl bartneriaid yw sicrhau bod y rhaglen hon yn cyrraedd yr holl randdeiliaid – o deuluoedd, i ymarferwyr, i lunwyr polisi – a bod yr effaith a gyflawnir yn arwain at ganlyniadau ystyrlon, parhaol i bawb.

Bydd y bartneriaeth yn anelu at sicrhau bod pob ffactor yn cael ei ddeall yn llawn, o faterion polisi cenedlaethol a lleol i gydraddoldeb a chyrraeddiad. Yn bwysicaf oll, bydd yn canolbwyntio ar lais a phrofiad gwirioneddol plant, pobl ifanc a theuluoedd, gan sicrhau bod eu hymateb yn sail i'r datrysiadau a gaiff eu cynllunio i'w cefnogi.

Agwedd ganolog ar y rhaglen yw cyfrannu at sgwrs genedlaethol am dlodi a'i effaith ar ddysgu, yn ogystal â chefnogi ysgolion i waredu rhwystrau sy'n gysylltiedig â'r bwlch cyrraeddiad sy'n gysylltiedig â thlodi a datblygu banc cyson o adnoddau a chanllawiau i gefnogi arfer da ar draws system addysg Cymru. Ochr yn ochr â hyn, bydd y rhaglen yn cryfhau mentrau awdurdodau lleol sy'n anelu at fynd i'r afael ag effaith tlodi ar addysg ac yn helpu i gydlyn ymdrechion cenedlaethol.

Yn ogystal, mae Resolve Poverty yn cyflawni nifer cynyddol o ddatblygu strategaeth gwrth-dlodi lleol a phrosiectau polisi ac ymchwil cysylltiedig. Bydd disgwyl i deiliad y swydd gyfrannu at y gwaith hwn, gyda rhaniad o 75/25% (y prosiect/polisi lleol a phrosiectau ymchwil Resolve Poverty eraill). Mae hyn yn creu cyfle cyffrous ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth rhwng gwahanol agweddau ar waith Resolve Poverty.

Diben y Swydd

Bydd yr Uwch Swyddog Polisi (Cymru) yn cynnal trosolwg o bolisi strategol o safbwynt cyfraniad Resolve Poverty at y rhaglen ac yn cyfrannu at gyflawni prosiectau polisi ac ymchwil lleol eraill mewn perthynas â'r strategaeth gwrth-dlodi.

Bydd deiliad y swydd yn sicrhau bod tystiliaeth, dysgu a phrofiadau gwirioneddol a gesglir trwy weithgarwch prosiect yn cael eu dadansoddi a'i troi'n negeseuon polisi clir, argymhellion a chyfleoedd at ddibenion dylanwadu ar benderfyniadau a wneir yn lleol ac yn genedlaethol.

Bydd deiliad y swydd yn sefydlu ac yn hwyluso Rhwydwaith Swyddogion Polisi Awdurdodau Lleol Cymru, yn meithrin perthynas effeithiol â thimau polisi Llywodraeth

Cymru, yn cyfrannu at y prosiect Theori Newid ac yn nodi cyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda chydlynnydd prosiect Children North East a'r tîm cyflawni ehangach i greu llif dwyffordd o wybodaeth rhwng cyflawni rheng flaen a pholisi strategol: sicrhau bod polisi yn llywio ymarfer tra bo tystiolaeth o'r rheng flaen yn llywio gwaith datblygu polisi.

Bydd deiliad y swydd hefyd yn cefnogi gwaith polisi strategol ehangach Resolve Poverty ac yn darparu cefnogaeth i nifer o brosiectau ychwanegol, ledled Cymru ac o fewn y DU ar lefel ehangach.

Cyfrifoldebau Allweddol

- **Arwain y prosiect:** Darparu arweinyddiaeth polisi strategol ar gyfer cyfraniad Resolve Poverty at y prosiect gan sicrhau bod gweithgarwch yn cyd-fynd â blaenoriaethau polisi perthnasol Cymru a Theori Newid y prosiect.
- **Meithrin cysylltiadau gyda'r llywodraeth:** Datblygu a chynnal cysylltiadau effeithiol â thimau perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru, yn enwedig ar draws addysg a thlodi plant, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgir o brosiectau i lywio trafodaethau ynghylch polisi a datblygu.
- **Sefydlu Rhwydwaith Swyddogion Polisi Awdurdodau Lleol:** Gan adeiladu ar fodel presennol Resolve Poverty, datblygu a chydlyn rhwydwaith ledled Cymru o swyddogion polisi awdurdodau lleol, i alluogi rhannu arferion da, nodi heriau cyffredin ac archwilio ymatebion strategol i dlodi ar draws llywodraeth leol.
- **Troi tystiolaeth yn bolisi:** Gweithio gyda chydweithwyr o fewn Children North East i ddadansoddi'r hyn a ddysgir o *Poverty Proofing*, y Rhwydwaith Dysgwyr, Rhwydwaith Addysgwyr, ysgolion ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach, gan nodi themâu cyffredin, rhwystrau systemig a chyfleoedd ar gyfer newid.
- **Hyrwyddo profiadau gwirioneddol:** Sicrhau bod profiadau a mewnwelediadau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu hadlewyrchu'n ystyrlon mewn gwaith datblygu polisi, argymhellion a gweithgarwch dylanwadu.
- **Cyfrannu at lunio adnoddau a chanllawiau:** Darparu arbenigedd polisi i ddatblygu pecynnau cymorth ac adnoddau dwyieithog i gefnogi ysgolion a rhanddeiliaid eraill.
- **Cyfrannu at gyflawni strategaeth gwrth-dlodi leol Resolve Poverty a phrosiectau polisi ac ymchwil cysylltiedig:** Darparu sgiliau polisi ac ymchwil cymhwysol er mwyn gallu cyflawni gwahanol brosiectau polisi ac ymchwil yn effeithiol.

Manyleb y Person

Hanfodol

- Profiad blaenorol o weithio mewn swydd bolisi, strategol neu brofiad o waith dylanwadu perthnasol.
- Dealltwriaeth gadarn o dlodi, tlodi plant, anghydraddoldeb a'r effaith ar addysg.
- Dealltwriaeth gadarn o sut mae polisi cyhoeddus yn cael ei ddatblygu a'i weithredu, yn enwedig ar lefelau llywodraeth ddatganoledig a llywodraeth leol.
- Sgiliau rhagorol o ran cyfathrebu, dylanwadu a chreu cysylltiadau.
- Profiad o weithio gyda llywodraeth, awdurdodau lleol neu sefydliadau'r sector cyhoeddus neu o ddylanwadu arnynt, gan gynnwys trwy sefydlu a chynnal cyfarfodydd, gweithdai a gweithgareddau cydweithio eraill.
- Profiad o weithio gyda rhanddeiliaid o wahanol sectorau. Y gallu i ddadansoddi data cymhleth er mwyn gallu nodi goblygiadau clir.
- Ymrwymiad i ddulliau cyfranogol ac i ymgorffori profiadau gwirioneddol ym maes datblygu polisi a gwneud penderfyniadau.
- Y gallu i weithio'n annibynnol, rheoli sawl blaenoriaeth ar yr un pryd a chyflawni gwaith o ansawdd uchel o fewn amserlenni penodol.
- Dealltwriaeth o theori newid systemau a'r berthynas rhwng polisi a lle.
- Y gallu i reoli prosiectau.

Dymunol

- Profiad o weithio o fewn Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol Cymru neu faes polisi ehangach Cymru.
- Sgiliau Cymraeg.
- Profiad o dlodi o fewn eich bywyd personol neu broffesiynol.

Buddion a manylion ymarferol

Cyflog: I'w gadarnhau

Pensiwn a gwyliau: 25 diwrnod y flwyddyn gydag un diwrnod ychwanegol o wyliau am blwyddyn a weithiwyd. Cyfraniadau pensiwn sylfaenol 4% cyflogwr/ 4% cyflogai, gyda chyfraniadau cyfatebol gan y cyflogwr o hyd at uchafswm o 8%.

Datblygiad proffesiynol: Mynediad at hyfforddiant a chymorth gan gymheiriaid trwy Resolve Poverty.

Teithio: Teithio ledled Cymru. Mae disgwyl rhywfaint o deithio i swyddfa Resolve Poverty ym Manceinion (unwaith y mis yn fwy na thebyg). Bydd costau teithio yn cael eu had-dalu yn unol â'r polisi.

Ymgeisio a dethol

Deunyddiau cais: CV (hyd at 2 dudalen o hyd) a datganiad ategol (hyd at 1,200 gair) sy'n esbonio sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf hanfodol a pham mae gennych ddiddordeb yn y swydd. Rhaid i ddatganiadau ategol fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r eitemau a restrir yn y fanyleb person i'w hystyried.

Dylid anfon ceisiadau at Michelle Hewitt erbyn 5pm ddydd Gwener 23 Hydref
michelle@resolvepoverty.org

Proses ddethol: Rhestr fer, cyfweiliad panel a thasg fer neu gyflwyniad sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Amserlen recriwtio:

Ceisiadau'n agor: Dydd Llun 28 Medi

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 5pm ddydd Gwener 23 Hydref

Cadarnhau dyddiadau cyfweiliadau ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer: Dydd Mercher 4 Tachwedd

Cyfweiliadau i'w cynnal trwy MS Teams ar Dydd Gwener 6ed Tachwedd.